# Dameg y wledd

**www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther**




Gwna amser yn dy fywyd ar gyfer pethau Duw a phaid ag anghofio gofalu am y tlawd a'r diymadferth yn y byd ac fe gei di dy fendithio.




Un diwrnod cafodd Iesu wahoddiad i fynd i gael pryd o fwyd yng nghartref Pharisead adnabyddus. Roedd pawb yn ei wylio. Adroddodd y stori hon i'r Pharisead.



"Fe wnaeth dyn baratoi gwledd fawr. Pan oedd popeth yn barod anfonodd ei was i wahodd ei ffrindiau i wledda.



Ond fe wnaeth pawb oedd wedi eu gwahodd esgusion. Dywedodd y person cyntaf, ' Fedra i ddim dod oherwydd fy mod wedi prynu darn o dir ac mae'n rhaid i mi fynd i'w weld.'




Atebodd y person nesaf oedd wedi cael gwahoddiad i'r wledd, ' Rydw i wedi prynu pump o wartheg ac mae'n rhaid i mi weld os ydyn nhw'n gallu cydweithio fel tîm wrth iddyn nhw aredig y tir, felly fedra i ddim dod.'



Dywedodd person arall oedd wedi cael gwahoddiad i'r wledd na allai ddod oherwydd ei fod newydd briodi. Roedd pawb yn rhy brysur i fynd i'r wledd.



Roedd y dyn roddodd y gwahoddiad mor siomedig ac meddai wrth y gwas,'Dos i'r lonydd a'r lonydd bach yn y ddinas a thyrd â'r bobl dlawd, y rhai sydd wedi brifo a'r rhai sy'n ddall i fy ngwledd.'



'Cofia di eu hannog nhw i gyd i ddod. Mae digon o le i bawb.' Cymer ofal o'r tlawd a'r diymadferth yn ein byd ac fe gei di dy fendithio."